# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**DYDD IAU, 8FED MEDI, 2016**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams [Yr Is-gadeirydd yn cadeirio]

**Y Cynghorwyr:**
T. Bowen, J.M. Charles, A. Davies, T. Davies, P.M. Edwards, J.K. Howell, I.J. Jackson, H.I. Jones, P.E.M. Jones, D.J.R. Llewellyn a J.S. Williams

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs S. Watts | - | Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd |
| Mr R. Edgecombe | - | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Mr J. Power | - | Uwch-swyddog Trwyddedu |
| Miss N. Rees | - | Cyfreithiwr Graddedig dan Hyfforddiant |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 10.45 a.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Thomas a M.K. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR MICHAEL ALAN DAVIES

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Michael Alan Davies, 51 Rhydyfro, Llangadog am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod y cais yn cael ei ganiatáu a bod Mr Davies yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Michael Alan Davies am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 4. CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR WAYNE SMITH RUSSELL

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Russell wedi hysbysu'r swyddogion na fyddai'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw gan y byddai ar wyliau a'i fod wedi gofyn am ohirio ystyried ei gais tan y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried cais Mr Wayne Smith Russell am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

## 5. CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DAVID WILLIAM SQUIRE

Atgoffwyd y Pwyllgor ei fod wedi gohirio ystyried y cais hwn yn y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 28ain Gorffennaf, 2016 (cofnod 4) gan nad oedd yr ymgeisydd yn gallu bod yn bresennol. Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Squire yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, nad oedd wedi cysylltu â'r swyddogion i gynnig esboniad ynghylch hynny a'i fod wedi cael gwybod pe na bai'n bresennol yn y cyfarfod heddiw y gallai'r mater gael ei ystyried ac yntau'n absennol. Felly

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn ystyried y cais yn absenoldeb yr ymgeisydd.**

Aeth y Pwyllgor ati i ystyried cais gan Mr David William Squire, 12 Tre Gwendraeth, Cydweli, am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd atal trwydded Mr Squire am 14 diwrnod.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr David William Squire am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei ganiatáu a bod ei drwydded yn cael ei hatal am 14 diwrnod.**

Y rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded ond bod achos rhesymol dros atal y drwydded honno am 14 diwrnod.

## 6. COFNODION - 28AIN GORFFENNAF, 2016

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 28ain Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD